# PA SIÂP ALLWCH CHI EI GREU?

## SUT I CHWARAE:

- Gofynnwch i'r plant ddangos rhif un i chi gan ddefnyddio eu bysedd.
- Wedyn, gofynnwch i'r plant ddangos rhif un i chi gan ddefnyddio eu dwy law.
- Symudwch ymlaen i ddangos rhif un gan ddefnyddio eu corff cyfan.
- Rhowch y plant mewn parau a gofyn iddyn nhw ddangos rhif un gyda'i gilydd.
- Trafodwch â'r dosbarth y pwysigrwydd o allu defnyddio'ch corff i ffurfio siapiau a chynrychioli gwrthrychau mewn dawns (gan ei fod yn helpu i adrodd stori a chreu cymeriad).
- Dewiswch thema ar gyfer y gêm, e.e. eitemau o'r gegin.
- Rhannwch y plant yn grwpiau o chwech neu saith.
- Rhowch wrthrych i'r plant y mae'n rhaid iddyn nhw ei ffurfio gyda'i gilydd o fewn amser penodol, e.e. 30 eiliad.
- Dylech annog gwaith tîm da i helpu i greu'r siâp sydd ei angen.

**Dilyniant:**

- Lleihau'r amser.
- Gadewch i grwpiau ddewis eu gwrthrych eu hunain i'w greu, cyn gofyn i'r grwpiau eraill ddyfalu pa wrthrych y mae'r grŵp yn ei arddangos.

## Adnoddau

- Argymhellir chwarae cerddoriaeth ar lefel isel iawn nes bod y plant wedi deall y cysyniad.